Cyswllt

Cylchgrawn cymunedol Blaenau Gwent

Haf 2011

Blaenau Gwent
County Borough Council

lle gwell i fyw a gweithio

Sgiliau tyfu ar gyfer pobl ifanc

Darganfyddwch ein blaenoriaethau hyd 2012

Sut y medrwch gefnogi eich canol tref leol

Cydweithio i wella gwasanaethau

Sut yr ydym yn ymateb i adroddiad Estyn

I gael newyddion a gwybodaeth y Cyngor ewch i www.blaenau–gwent.gov.uk

Cyswllt i'ch Cyngor

Cylchgrawn cymunedol Blaenau Gwent

lle gwell i fyw a gweithio

Cofiwch mai Tai Calon sy'n trafod ymholiadau gan denantiaid presennol. Ffoniwch Tai Calon ar 0300 303 1717. Diolch yn fawr.

Cyswllt Blaenau Gwent 01495 311 556

Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaethau gorau a fedrwn ar eich cyfer chi – ein cwsmeriaid. Mae ein cynghorwyr wedi eu hyfforddi ac yn barod i ddelio gydag amrywiaeth eang o ymholiadau.

Ymwelwch â'n tudalennau Flickr, YouTube, Twitter, Delicious, My Space a Facebook drwy glicio dolenni ar hafan www.blaenau-gwent.gov.uk.

Cofiwch ein rhif – 01495 311556 (Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 5.30pm)
Argyfwng Allan o Oriau Swyddfa 0845 056 8035

I gael newyddion a gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor, edrychwch ar ein gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk

Beth i ofyn amdano

Holwch ein cynghorwyr am:

- Addysg
- Ailgylchu a sbwriel
- Taflu sbwriel yn anghyfreithlon
- Goleuadau stryd
- Budd-daliadau a'r Dreth Gyngor
- Ceisiadau am swydd
- Cwynion am niwsans sŵn
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- A mwy

Sut i gysylltu

Ymwelwch â'n canolfan gwasanaeth cwsmeriaid newydd yn y Ganolfan Ddinesig, Glyn Ebwy.

Galwch heibio Gwasanaeth Allgymorth Cyswllt Blaenau Gwent mewn canolfannau chwaraeon a llyfrgelloedd.

E: info@blaenau-gwent.gov.uk
Minicom: 01495 355959
Ffacs: 01495 315265

Drwy'r post: Cyswllt Blaenau Gwent, Depot Canolog, Stad Ddiwydiannol Barleyfield, Brynmawr, NP23 4YF.

Cyswllt Blaenau Gwent: 01495 311556 (pwyswch opsiwn 5)
Ar gyfer gwasanaethau eraill, defnyddiwch y rhifau ffôn ar y llaw dde.

Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Cymdeithasol

Pwynt cyswllt cyntaf am ymholiadau am wasanaethau cymdeithasol
01495 315700
Dydd Llun i ddydd Iau 9am – 5pm
Dydd Gwener 9am – 4:30pm
Gwasanaethau Cymdeithasol Allan o Oriau 0800 328 4432

Looking Local

- Ar gael ar deledu Sky
- Defnyddwyr Virgin pwyswch: Interactive>news/info>Looking Local>Wales>Blaenau Gwent
- Medrwch hefyd anfon neges destun o'ch cod post at 07786 203 957

Cyswllt Blaenau Gwent

Y Dreth Gyngor, Cyfrifon Amrywiol a'r Dreth Fusnes Anfonwch neges destun at Tracey ar 87474 i weld os oes gennych hawl i fudd-dal	01495 **311 556** (Pwyso dewis 3)
Budd-daliadau a Phrydau Ysgol am Ddim	01495 **311 556** (Pwyso dewis 2)
Taliadau Awtomedig	01495 **311 556** (Pwyso dewis 1)
Gwasanaethau Cymdeithasol	01495 **311 556** (Pwyso dewis 4)

Ewch ar y we!

Edrychwch ar ein gwefan rhwyddach ei defnyddio a chael mynediad i wasanaethau ar-lein yn www.blaenau-gwent.gov.uk

Cefnogwch Gyngor 'gwyrdd'

Cofrestrwch am eich e-gopi o'r gylchgrawn. E-bostiwch eich manylion cyswllt i lisa.davies@blaenau.gwent.gov.uk

Canolfannau Dysgu Gweithredol	
Abertyleri	01495 **355 895**
Blaenau	01495 **290 034**
Brynmawr	01495 **355 595**
Cwm	01495 **371 117**
Glyn Ebwy	01495 **303 544**
Tredegar	01495 **303 544**
Canolfannau Chwaraeon	
Abertyleri	01495 **212 206**
Glyn Ebwy	01495 **303 766**
Nantyglo	01495 **310 785**
Tredegar	01495 **723 554**

Blaenau Gwent Looking Local Wii ac ar-lein yn: http://lookinglocal.gov.uk/BlaenauGent

Os hoffech gael cylchgrawn Cyswllt mewn print bras, cysylltwch â Lisa Davies ar 01495 356073

Cyhoeddir a dosbarthir cylchgrawn Cyswllt gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent – yn ddi–dâl – i bob cartref yn y fwrdeistref sirol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir adeg argraffu.

Croeso i'r rhifyn yma o'ch cylchgrawn cymunedol - Cyswllt.

Tu mewn mae'r newyddion diweddaraf ar addysg ym Mlaenau Gwent. Cyhoeddodd arolygiaeth Estyn adroddiad ar ein gwasanaethau addysg yn ddiweddar. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad sylweddol mewn addysg dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, nid ydym wedi datblygu'n ddigon cyflym. Mae angen i ni gydnabod yr angen i wella. Ac mae gennym ymrwymiad i wella ac ymroddiad i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar y bwrdd adfer ymyriad. Mae mwy ar Estyn a mater addysg yn y cylchgrawn yma.

Ar dudalennau 4-5 darllenwch yr hyn yr anelwn ei gyflawni erbyn 2012.

Yn y rhifyn diwethaf, fe wnaethom adael i chi wybod am y Strategaeth Gymunedol. Yn awr darllenwch ymlaen i ddysgu am y Cynllun Gwella Corfforaethol - y cynllun busnes pedair blynedd i 2012.

Rydym yn falch o'n cymunedau ffyniannus. Ar dudalen 11, medrwch ddarganfod sut mae prosiect garddio a enillodd wobrau yn ennyn diddordeb ein pobl ifanc. Ar ôl misoedd o waith caled mae'r grŵp yn awr yn medru manteisio ar ffrwyth eu hymdrechion. Medrwch hefyd ddarllen am ein Trefi 5 Seren. Bwriadwn hyrwyddo ein trefi fel lleoliadau gwych gyda chyfleoedd gwych i fuddsoddi.

Mae ein prosiect Effaith Blaenau Gwent hefyd yn mynd o nerth i nerth. Mae'n dod ynghyd â thîm i annog menter a dod â swyddi i'n hardal. Darllenwch fwy ar dudalen 8.

Mae ein hadran Beth sydd Ymlaen yn llawn o sioeau hwyliog i'r holl deulu eu mwynhau.

Rydym yn falch tu hwnt o'r trawsnewid sy'n digwydd ar safle'r Gweithfeydd.

Pam na archebwch ymweliad i weld Cartrefi Dyfodol Cymru? Mae mwy o wybodaeth ar dudalen 10.

Mae tudalennau 6 a 7 yn llawn straeon ar ein hagenda Dysgu. Medrwch logio ar A465.com a gweld drosoch eich hun beth o'r gwaith gwych sy'n mynd ymlaen yn yr ardal. Mae'r wefan newydd yn disgrifio'r cyrsiau sydd ar gael ac yn rhoi gwybodaeth i ysgolion a chyflogwyr hefyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda phedwar awdurdod lleol arall fel rhan o Gonsortiwm Addysg De Ddwyrain Cymru.

Gwelsom lwyddiannau ardderchog gan ein tîm gwasanaethau cymdeithasol. Mae manylion tu mewn. Peidiwch anghofio ychwaith i gymryd rhan yn ein cystadleuaeth i ennill tocynnau am ddim i'r teulu – ar dudalen 16.

Cynghorydd Des Hillman
Arweinydd Cyngor Blaenau Gwent

Eich Maer newydd

Yn y llun gwelir ein Maer a'n Maeres newydd. Y Cyng Mike Bartlett yw'r Maer a'i wyres Sheridan Barlett, sy'n 19 oed, yw'r Faeres newydd.

Y Dirprwy Faer yw'r Cyng Den Hughes a'i wraig Gloria Hughes yw'r Ddirprwy Faeres. Mae'r Maer eisoes wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ac mae ef a'i wyres yn dweud eu bod yn gwirioneddol fwynhau eu rôl newydd.

Arwain cymunedau

Astudiaeth Achos 1

Blaenoriaeth: Y Cyngor yn gweithredu fel busnes effeithiol

Liz Lowther, Cynrychiolydd Gwasanaethau Cwsmeriaid

"Ar hyn o bryd, mae'n debyg ein bod i gyd yn y cyfnod ariannol anoddaf yr ydym erioed wedi'i wynebu, ac rydym yn mynd ati i sicrhau gwelliannau cyflymach i wasanaethau allweddol fel addysg. Mae'ch Cyngor yn benderfynol i fynd i'r afael â'r her, gan wneud arbedion yn ogystal â darparu gwasanaethau ansawdd uchel a gweithio i ddiogelu gwasanaethau rheng-flaen allweddol.

"Un o'r meysydd penodol yr ydym yn gweithio arno eleni yw rhoi dewis ehangach i chi o sut i gael mynediad i'n gwasanaethau. Mae'n wirioneddol gyffrous oherwydd ein bod yn datblygu sut y defnyddiwn dechnoleg i wneud hynny. Mae ein gwefan newydd sbon a'r gwasanaethau y medrwch gael mynediad iddynt ar-lein yn enghraifft."

Astudiaeth Achos 2

Blaenoriaeth: Oedolion â gwell ansawdd bywyd

Kimberley Price, Gweithwraig Gymdeithasol

"Rydym eisiau i bob oedolyn fod yn iach, diogel a bod â mynediad i amrywiaeth o wasanaethau modern i wella eu hansawdd bywyd. Rydym eisoes wedi buddsoddi'n helaeth mewn tai Gofal Ychwanegol ac un o'n meysydd ffocws yn awr yw adeiladu ar waith mor dda i helpu pobl fregus yn ein hardal i fyw'n annibynnol.

"Mae'r cynllun ar gyfer i'n Gwasanaethau Cymdeithasol gydweithio gyda Chyngor Bwrdeisdref Sirol Caerffili yn enghraifft dda o'r modd y dymunwn gryfhau'r gwasanaeth a ddarparwn i bobl leol."

Astudiaeth Achos 3

Blaenoriaeth: Plant a phobl ifanc â llawer o uchelgais i'w helpu i gyflawni eu potensial llawn

Cath Tetley, Cymhorthydd Personol y Cyfarwyddwr Addysg

"Rydym yn uchelgeisiol dros blant a phobl ifanc, ac rydym eisiau iddynt fod ag uchelgais drostynt ein hunain. Rydym eisiau cefnogi ac annog preswylwyr lleol i gyflawni eu potensial llawn, ac mae hynny'n cynnwys codi lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion.

"Ein meysydd ffocws eleni ar gwneud yn sicr fod mwy o leoliadau gofal maeth sefydlog ar gael, ac ad-drefnu addysg yng Nghwm Ebwy Fawr. Mae gennym hefyd ymroddiad i gario ymlaen gyda'n gwaith caled i sicrhau fod mwy o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

"Rydym yn llwyr gydnabod yr angen i wella ein gwasanaethau Addysg er budd pob dysgwr ym Mlaenau Gwent, ac wedi ymrwymo i weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr eraill i fynd i'r afael â'r heriau y rhoddwyd sylw iddynt mewn adroddiad diweddar gan arolygiaeth Estyn - darllenwch fwy yn y cylchgrawn yma."

Astudiaeth Achos 4

Blaenoriaeth: Yr Amgylchedd yn lân, diogel a chynaliadwy, ac yn cefnogi adfywiad cymdeithasol a ffisegol.

Mark Caple, Gweithiwr Glanhau

Carl Partridge, Ysgubwr Mecanyddol

"Gwyddom fod eu bro yn bwysig i bobl leol, a dyna pam ein bod yn ceisio eu cynnwys a gweithio gyda hwy fel y medrwn gyda'n gilydd gofal o'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo.

"Eleni mae ein gwasanaeth yn hyrwyddo ymgyfraniad y cyhoedd mewn hyrwyddo a chynnal amgylchedd glân yn ogystal â chreu diwylliant o ailgylchu a thorri gwastraff."

Yr hyn y mae'ch Cyngor yn bwriadu ei gyflawni ar gyfer eich cymuned erbyn 2012

Nid yw'n fis Ionawr, ac nid yw hyn yn adduned Blwyddyn Newydd. Mae hyd yn oed yn well: dyma'r hyn y mae ein cynllun busnes yn addo y byddwn yn ei gyflawni ar gyfer Blaenau Gwent erbyn 2012.

Yn y rhifyn diweddaf o Cyswllt, fe wnaethoch ddarllen am y Strategaeth Gymunedol. Dyma'r cynllun 20 mlynedd nesaf mawr i sicrhau dyfodol egnïol i Flaenau Gwent. Nawr medrwch ddarganfod pa gyfraniad a wnaiff eich Cyngor dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn gynllun busnes pedair blynedd hyd 2012. Mae'n nodi sut yr ymatebwn i'r hyn y mae ein cymunedau'n ddweud wrthym, drwy roi blaenoriaeth i'r gwasanaethau sydd bwysicaf iddynt. Rhoddir manylion ein pedwar maes blaenoriaeth ar dudalen 4.

Gwyddom fod angen i ni wneud yn well mewn rhai meysydd. Mae'r Cynllun yn sefydlu deg peth sy'n bwysig i ni fynd i'r afael â hwy - gwella ein ffyrdd er enghraifft. Fel pob cyngor, mae nifer o asiantaethau yn dweud yr hyn a wnawn a ph'un yw ein canlyniadau - newidiadau cadarnhaol o fudd i breswylwyr - yn dda. Mae gennym nifer o gynigion a gwelliannau fydd yn ein helpu i wella ymhellach, ac rydym yn gweithio arnynt i gyd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn cyhoeddi Cam 2 y Cynllun Gwella Cymunedol cyn Tachwedd 2011. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad ar y targedau yr ydym wedi'u gosod i'n hunain a'r cynnydd a wnaethom yn cyflawni canlyniadau gwerthfawr ar gyfer Blaenau Gwent.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth yn Cyswllt yn y dyfodol ar sut yr ydym wedi'n gwneud.

I gael mwy o wybodaeth

Edrychwch ar Gam 1 y Cynllun Gwella Cymunedol llawn a'r hyn y mae'n ei olygu i chi ar-lein yn www.blaenau-gwent.gov.uk.

Mae copïau hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd, y Ganolfan Ddinesig, canolfannau chwaraeon a chanolfannau dysgu gweithredol.

Yn benderfynol i wneud yn well, drosoch chi

Fis diwethaf, cyhoeddodd arolygiaeth Estyn ei adroddiad ar wasanaethau addysg Blaenau Gwent. Nid oedd mwyafrif ei ganfyddiadau yn syndod, a thrwy ein llywodraethu da roeddem eisoes wedi rhoi blaenoriaeth i'r maes yma. Fel maes sy'n wirioneddol bwysig i'n cymunedau, a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad sylweddol mewn addysg dros y blynyddoedd.

Mae Estyn wedi cydnabod rhai llwyddiannau ac mae'n bwysig cofio fod nifer o'n hysgolion eisoes yn perfformio i safon uchel.

Dywedodd yr adroddiad fod gan y Cyngor gynlluniau da ar waith ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd. Dywedwyd hefyd fod yr awdurdod yn gweithio'n dda i gynllunio gostwng nifer lleoedd gwag, trin y gostyngiad yn nifer disgyblion yn y sectorau uwchradd a chweched dosbarth a gwella adeiladau ysgol.

Mae angen gwneud mwy

Fodd bynnag, derbyniwn nad ydym wedi symud yn ddigon cyflym ac yn cydnabod yn llawn yr angen i wella er budd holl ddysgwyr Blaenau Gwent. Rydym yn benderfynol i hybu gwelliannau, ac yn ymroddedig i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar y bwrdd adfer ymyriad. Rydym eisoes wedi gosod llawer o'r sylfeini yn ein rhaglen uchelgeisiol i drawsnewid gwasanaethau addysgol - penderfyniadau caled yn adlewyrchu'r cyfeiriad a nodwyd gan y Gweinidog Addysg a Llywodraeth Cymru. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y sylfeini hyn wrth i ni symud ymlaen.

Mae llywodraethu da yn bwysig

Adeg mynd i'r wasg, mae hefyd yn debygol y byddwn yn gwneud mwy o waith gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Cyngor yn gwybod fod yn rhaid iddo wneud yn well mewn rhai meysydd, ond rydym yn hyderus fod gennym drefniadau llywodraethu da ar waith, fel y nodwyd yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar Flaenau Gwent.

Yn yr adroddiad hwn – a gyhoeddwyd yn Ionawr eleni – ni wnaeth y corff archwilio ac arolygu unrhyw argymhellion i Lywodraeth Cymru yn dynodi bod angen ymyrryd. Ni soniodd bod angen arolwg arbennig, nac yn wir wneud unrhyw argymhellion o gwbl ar gyfer gwella. Yn lle hynny, rhoddodd nifer o gynigion i'r Cyngor i'n helpu i wella ymhellach.

Buom yn gwneud cynnydd da ar bob maes a gyflwynwyd gan y corff arolygu, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn Cyswllt yn y dyfodol, neu medrwch ymweld â'n gwefan i gael mwy o wybodaeth.

Edrychwch ar ein tudalennau Cymunedau Dysgu i gael mwy o wybodaeth am brosiectau addysg

Cymunedau dysgu

Addysg yn Y Gweithfeydd

Mae digwyddiadau cyffrous yn digwydd i addysg a dysgu ym Mlaenau Gwent fel rhan o raglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor i ddarparu dysgu o'r radd uchaf i'r gymuned leol.

Bydd safle Y Gweithfeydd yn gartref i gyfleusterau dysgu newydd. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn www.blaenau-gwent.gov.uk.

Bydd ysgolion cynradd Pontygof a Waunlwyd ac ysgolion cyfun Glynebwy a Glyncoed yn cau ar 31 Awst 2012, a bydd yr ysgol a gynhelir 3-16 gyntaf yng Nghymru yn dod yn eu lle. O 1 Medi 2012, bydd ysgolion cynradd Pontygof a Waunlwyd ac Ysgol Arbennig Pen-y-cwm yn symud i safle'r Gweithfeydd.

Bydd Hafan Dysgu Blaenau Gwent, chweched dosbarth a champws addysg bellach Coleg Gwent ar gyfer myfyrwyr 16 a throsodd ar draws Blaenau Gwent yn agor ym Medi 2012. Bydd yn disodli darpariaeth chweched dosbarth ym Mrynmawr, Glynebwy a Thredegar.

Bydd Hafan Dysgu Blaenau Gwent yn cynnwys Canolfan Adnoddau Dysgu a chyfleusterau uwch ar gyfer technoleg gwybodaeth. Bydd y safle yn agor ym Medi 2012. Caiff ei lywodraethu gan Goleg Gwent.

21st CENTURY EDUCATION
Education Transformation in Blaenau Gwent

Stori Trawsnewid Addysg hyd yma

Dulliau blaengar

- ✓ Gweithio gyda phedwar cyngor ar un gwasanaeth cyflawni integredig i hybu gallu a chodi safonau.
- ✓ Cydweithio gyda Chyngor Merthyr Tudful ar ei Hardal Ddysgu.
- ✓ Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 drwy weithio gyda Phrifysgolion Cymru a Choleg Gwent.

Cyfleusterau newydd

- ✓ Creu cyfleusterau addysg ôl-16 o'r math diweddaraf gyda'r Hafan Dysgu.
- ✓ Adeiladu ysgol newydd 3-16 gyda Chanolfan Gofal Plant Integredig a symud Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm i safle'r Gweithfeydd.
- ✓ Buddsoddi mewn ysgol newydd sbon ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig
- ✓ Agor Ysgol Gymraeg Bro Helyg
- ✓ Lansio porth A465.com ar ddysgu ôl-16 ym Mlaenau'r Cymoedd
- ✓ Buddsoddi i ehangu ac adnewyddu Ysgol Gyfun Abertyleri

Rhaglen newydd yn newid bywydau

Mae rhaglen ranbarthol newydd yn rhan allweddol o'r hwb i roi gwell cyfleoedd bywyd i bobl ifanc Blaenau Gwent.

Mae prosiect Pre-VENT yn helpu pobl ifanc 14-19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd, neu sydd mewn risg o ymddieithrio o'r cyfleoedd hyn.

Gan fynd i'r afael â'r materion sylfaenol pam fod bobl ifanc mewn risg, yn ei naw mis cyntaf mae'r cynllun wedi cefnogi 88 o bobl ifanc ym Mlaenau Gwent. Mae Joanne Sims, Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid, wedi gweld sut mae'r gwaith yn newid bywydau: "Mae'r bobl ifanc yma wedi gwella eu hyder a'u lles, ac wedi datblygu sgiliau cymdeithasol sydd wedi'u galluogi i fynd i ddysgu pellach a hyfforddiant," meddai.

Derbyniodd y prosiect, a ddatblygwyd gan gynghorau Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Torfaen a Merthyr Tudful, hwb ariannol o £8.2m gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar.

Yn ogystal â helpu pobl ifanc i fynd drwy gyfnod anodd megis digartrefedd, profedigaeth neu allgau, mae'r cynllun yn rhoi pecyn o gefnogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc mewn ysgolion a chanolfannau eraill.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Joanne Sims yn y Gwasanaeth Ieuenctid ar 01495 357866 neu Joanne.sims@blaenau-gwent.gov.uk.

"Rydym eisiau chwalu'r rhwystrau sy'n atal rhai pobl ifanc rhag cael y budd mwyaf o'u haddysg, ac mae'r prosiect yma'n anelu i fynd i'r afael â'r mater ... Bydd rhoi sgiliau newydd a hyder i bobl ifanc yn arwain at well cyfleoedd gyrfa a gweithlu safon uchel."

Alun Davies AC, Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

Ymrwymiad gwleidyddion i bobl ifanc

'Ymlaen gyda'n gilydd' oedd y neges mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor a alwyd i drafod y ffordd ymlaen yn dilyn yr arolwg diweddar gan Estyn.

Mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor ychydig wythnosau yn ôl, ymrwymodd aelodau etholedig o bob cefndir gwleidyddol yn unfrydol i sicrhau newid sylfaenol mewn gwasanaethau addysg. Pwysleisiodd aelodau etholedig mai eu blaenoriaeth oedd gwella cyrhaeddiad ysgol, gan gydweithio i wneud yn sicr bod pobl ifanc yn cael y gwasanaeth addysgol gorau posibl yn y dyfodol.

"Gwneir buddsoddiad sylweddol i roi mynediad i bobl ifanc i gyfleusterau addysgol o'r safon uchaf, ac mae hynny'n beth gwych i gymunedau lleol a busnesau ym Mlaenau Gwent. Rwy'n gadarnhaol iawn am y dyfodol."

Richard Davies, Cadeirydd grŵp Cyswllt i Fusnes Blaenau Gwent

Logio ymlaen i newid addysgol

Rydych yn awr un clic i ffwrdd o'r holl wybodaeth rydych ei hangen am drawsnewid addysg ym Mlaenau Gwent, diolch i wefan newydd sbon. Edrychwch ar A465.com i gael y diweddaraf ar:

- newidiadau i addysg a'r hyn mae'n ei olygu i gymunedau ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful
- cyrsiau sydd ar gael yn lleol yn cynnwys yr hyn sydd ar gael ar gyfer oedolion
- sut y gall ysgolion a chyflogwyr gydweithio i wneud y mwyaf o weithlu yfory
- datblygiadau cyffrous megis yr Hafan Dysgu ac Ardal Ddysgu Merthyr, yn ogystal â chorff newydd Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd.

Mae ein partneriaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Merthyr Tudful, Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd, Coleg Gwent, Coleg Merthyr Tudful, Prifysgol Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg.

Darllenwch ar y cyfan ar www.A465.com

A465.com Eich Llwybr i Lwyddiant Your route to success

"Mae'r Gweithfeydd ac Ardal Ddysgu Merthyr yn rhan o strategaeth ehangach i ddod â dysgu 21ain Ganrif i Flaenau'r Cymoedd ac ar draws Cymru a hefyd gynhyrchu manteision tymor hir, gan greu lle cyffrous i fyw, dysgu, gweithio a chwarae ..."

"Mae'n hanfodol fod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dysgu yng Nghymru yn medru cystadlu ar lwyfan cenedlaethol, p'un ai yw hynny drwy gyrsiau academaidd neu alwedigaethol, ac rwy'n hyderus y bydd y buddsoddiad yma yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn help i gyflawni hyn."

Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau

"Mae'r cyngor eisiau'r gorau oll i'w blant a phobl ifanc, ac maent yn gwybod bod angen newid y ffordd y caiff gwasanaethau addysg eu darparu. Dyna pam ein bod yn cydweithio i greu gwasanaeth fydd yn gweithio'n well gydag ysgolion i ddatblygu potensial llawn eu holl ddysgwyr."

John Tushingham, aelod o dîm prosiect y consortiwm

Gwell gyda'n Gilydd

Rydym yn gweithio ar gynllun cyffrous ar y cyd i feithrin gallu ac ansawdd mewn gwasanaethau addysg. Drwy uno gyda phedwar cyngor arall fel rhan o Gonsortiwm Addysg Blaenau Gwent, rydym yn datblygu cyflawniad addysg ar y cyd. Bydd hyn yn gwella cyrhaeddiadau addysgol plant a phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol, wrth iddo feithrin gallu.

Byddai Blaenau Gwent, fel cyngor llai, yn medru cael mwy o gefnogaeth i'n hysgolion nag y medrwn ei ddarparu ar hyn o bryd gan weithio ar ben ein hunain. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y datblygiadau.

Cymunedau ffyniannus

Sut yr ydym yn helpu pobl i waith

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau fod pobl leol yn derbyn help, cefnogaeth a chyfleoedd i gael mynediad i gyflogaeth.

Rydym yn cynnig ymyrriad uniongyrchol i helpu pobl i waith, yn ogystal â chynlluniau ehangach i gryfhau seilwaith ac economi'r ardal a chreu mwy o swyddi'n lleol.

Er enghraifft, bu ein Canolfan Hyfforddiant yn darparu cyfleoedd dysgu galwedigaethol am y 27 mlynedd diwethaf. Gweithiwn gyda phobl a all fod heb gymwysterau ffurfiol yn ogystal â helpu i atal pobl ifanc rhag peidio bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae aelodau staff y Ganolfan yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i'w helpu i ddatblygu a chynyddu eu gweithlu.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno Cronfa Swyddi'r Dyfodol, cynllun ar draws Prydain sy'n anelu i greu miloedd o swyddi. Bu'n un o'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn ein hardal.

Rydym yn benderfynol i greu dyfodol egniol i Flaenau Gwent. Rydym yn falch o'n cynllun adfywio sawl miliwn o bunnau ar hen safle'r gwaith dur yng Nglynebwy – a elwir yn awr Y Gweithfeydd.

Hyd yma, mae'r prosiect adfywio sylweddol yma wedi creu dros 700 o swyddi yn lleol. Yn y dyfodol, bydd yn gartref i fusnesau newydd yn ogystal â chyfleusterau i annog entrepreneuriaeth.

Blaenau Gwent yw'r ffocws ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau adfywio i wella cyfleoedd a chreu swyddi ar gyfer pobl leol o bob oedran. Bydd cyfleusterau addysgol o'r math diweddaraf yn rhoi'r cyfleoedd dysgu gorau posibl i bobl ifanc ac oedolion. Mae ein portffolio eiddo yn cynnwys swyddfeydd diwydiannol a masnachol. Mae'r busnesau yn y swyddfeydd hyn yn cefnogi 666 o swyddi llawn-amser a thua 140 o swyddi rhan-amser.

Effaith Blaenau Gwent

Mae Effaith Blaenau Gwent - y Prosiect Hwyluso Menter lleol - yn mynd o nerth i nerth.

Mae'r prosiect yn dod â thîm ynghyd i annog menter a dod â swyddi i'n trefi a'n cymunedau lleol. Y nod yw helpu pobl leol sydd â syniadau am fenter. Maent yn bobl a all hybu ein heconomi, creu swyddi ac adfywio ein hardal.

Moe Farouzan yw'r Hwylusydd Menter. Yn y pedair wythnos gyntaf, bu Moe yn gweithio gyda 30 cleient. Mae 20 ohonynt yn entrepreneuriaid sy'n cychwyn arni ac mae gan y 10 arall fusnesau i'w hehangu.

Sut y medrwch helpu?

Gall unrhyw un gyda syniad busnes newydd gysylltu â Moe. Gwahoddir unrhyw un sy'n dymuno dod yn egin entrepreneur dod yn aelod o'r Panel Adnoddau Gwirfoddol.

Pam Hwyluso Menter?

Mae 'Effaith Blaenau Gwent' wedi'i seilio ar syniadau gan Dr Ernesto Sirolli a gyflwynodd Hwyluso Menter a chychwyn prosiectau llwyddiannus, gan ddod â swyddi i gymunedau tlawd ym mhob rhan o'r byd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.sirolli.com.

I gysylltu â Moe neu i gael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at moe@bgeffect.com os gwelwch yn dda.

Croesawu newyddion am waith deuoli ffordd

Mae'r Cyngor wedi croesawu y newyddion fod gwaith ar fin dechrau ar ddeuoli rhan olaf yr A465.

Mae'n wych y cymerwyd cam pwysig arall i gyflawni prosiect deuoli hollbwysig A465 Blaenau'r Cymoedd. Mae hyn yn newyddion rhagorol ar gyfer ein cymunedau ac ymwelwyr i Flaenau Gwent.

Bydd yn agor ardal Blaenau'r Cymoedd i gyfleoedd busnes newydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol."

Dyfarnwyd contract £150 miliwn i ddeuoli'r rhan o ffordd Blaenau'r Cymoedd rhwng Gilwern i Frynmawr i Costain Cyf. Mae'r gwaith i gychwyn yn 2014.

Caiff pob rhan o'r A465 sy'n mynd drwy Went eu huwchraddio i ffordd ddeuol o fewn y chwe blynedd nesaf.

Bydd y Cyngor yn buddsoddi bron £6m eleni i wella ffyrdd yn yr ardal yma – un o'n haddewidion erbyn 2012.

Adfywio Canol Tref Abertyleri

Yn dilyn cymeradwyo £13.2 miliwn o gyllid yn Chwefror 2011 i adfywio a gwella canol tref Abertyleri, rydym yn eich holi chi a busnesau lleol am y prosiectau sydd ar y gweill ar gyfer hyd at 2015.

Prosiectau

Cynllun Sgwâr Ffowndri

Bydd yn rhoi amgylchedd mwy diogel ar gyfer cerddwyr gyda chyflwyno parth 30mya a mesurau tawelu traffig ar gyfer modurwyr.

Gwella Porth Deheuol

Mae gwaith gwella ger y Senotaff ar Stryd Somerset wedi'i drefnu ar gyfer Awst 2011. Bydd hyn yn cynnwys gwella cynllun ffordd gyda mini-gylchfan a chamerâu CCTV er diogelwch y cyhoedd.

Ailddatblygu cyn Gapel y Drindod

Mae busnesau lleol ac aelodau'r gymuned wedi ffurfio grŵp i helpu gyda gwaith ymarferoldeb a strategaeth ar gyfer menter marchnad dan do.

Stryd yr Eglwys

Mae gwaith ar weddill y stryd ar y gweill ar gyfer dechrau 2012. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu Eglwys San Mihangel a chyflwyno gofod dinesig cyhoeddus rhwng yr eglwys a'r rheithordy.

Grantiau gwella adfywio ffisegol

Bydd grantiau yn helpu i ysgogi buddsoddiad gan fusnesau canol y dref wrth adfer anheddau. Medrir cael mwy o wybodaeth o 01495 355533.

Mae prosiectau eraill sy'n cael eu datblygu yn cynnwys:

- Gwelliannau treflun (Stryd Fawr a Stryd Somerset)
- Ailddatblygu'r maes parcio aml-lawr
- Ailddatblygu safle Stryd Tyleri/ Stryd Division

Mae'r cynlluniau hyn ar gyfer 2013 ymlaen. Cynhelir digwyddiadau ymgynghori pellach i roi cyfle i chi a busnesau i roi sylwadau a chyfrannu at ddyluniad cynlluniau.

Trefi 5 Seren Blaenau Gwent

Mae Des Hillman, Arweinydd Cyngor Blaenau Gwent, yn cefnogi busnesau lleol.

"Dylem i gyd brynu cymaint ag sy'n bosibl yn lleol er mwyn cefnogi ein siopwyr lleol a chadw canol trefi'n llewyrchus," meddai'r Arweinydd.

"Mae gennym drefi 5 Seren gwych sydd â llawer iawn i'w gynnig i bobl leol ac ymwelwyr," ychwanegodd.

"Mae trefi Blaenau Gwent yn hygyrch a neilltuol - yn llawn o bobl gyfeillgar. Mae gan ein pum tref sef Abertyleri, Blaenau, Brynmawr, Glynebwy a Thredegar, lawer iawn i'w gynnig. Rydym yn awyddus i gael cynifer o bobl ag sydd modd i fanteisio ar yr hyn sydd ar gael yn eu canolfan siopa leol. Mae'n rhan o'n gwaith i wneud canol trefi hyd yn oed yn fwy egnïol a hyfyw. Byddai'n hwb enfawr ac yn bleidlais o hyder i siopwyr lleol - sy'n aml yn enaid unrhyw dref - pe byddai pawb yn cefnogi'r ymgyrch yma.

"Bydd brandio Canol Trefi 5 Seren Blaenau Gwent, a ddatblygwyd yn ddiweddar, yn helpu i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael yn ein canol trefi lleol. Mae'r brandio'n ychwanegu at y gwaith adfywio sy'n cael ei wneud ac yn rhoi pwyslais cryf ar nodweddion arbennig y trefi.

"Mae'r brand 5 Seren wedi'i seilio'n helaeth ar werthoedd cryf a dymuniadau pobl leol sy'n gyfrifol am y busnesau canol trefi. Mae ein neges ni am y gwasanaeth safon uchel y gall pobl ei ddisgwyl yn y trefi 5 Seren a'r ystod o gynnyrch lleol y mae busnesau yn eu cynnig pan fo cwsmeriaid yn prynu'n lleol.

"Bwriadwn hyrwyddo Trefi 5 Seren Blaenau Gwent fel lleoliadau gwych i dreulio amser, gydag atyniadau gwych a chyfleoedd buddsoddi rhagorol. Anogwn ddarllenwyr i ddod i gael yr awyrgylch a mwynhau yr hyn sydd gan ein siopau lleol i'w gynnig."

Blaenau Gwent 5 Star Towns

Contract seilwaith

Mae'r contract i ddatblygu'r seilwaith yn Y Gweithfeydd wedi cychwyn. Bydd hyn yn cynnwys darparu'r rhwydwaith ffyrdd a'r prif wasanaethau. Bydd seilwaith danddaear yn helpu'r adeiladau cyhoeddus ar y safle i fod yn effeithiol o ran ynni. Bydd y contract yn cyflenwi cyfleusterau a gwasanaethau fydd yn ei gwneud yn bosibl i agor y prosiectau cyfredol i'r cyhoedd yn y dyfodol.

Y Gweithfeydd gwyrdd

- Tai cyfeillgar i'r amgylchedd
- Canolbwynt ynni
- Safonau uchel o ystyriaeth amgylcheddol
- Ymrwymiad i gadw bywyd gwyllt yn yr ardal
- Datblygu amgylcheddau naturiol

Gwahoddiad i ymweld â'n tŷ gwyrdd

Tŷ Calch: gwnaed yng Nghymru

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i ymweld â'r Tŷ Calch, un o ddim ond dau o gartrefi yn ein hardal i gael eu cynhesu gan nodweddion gwyrdd arbennig!

Mae'r cartref, sydd bellach ar agor ar safle'r Gweithfeydd. Fe'i agorwyd yn swyddogol yn ddiweddar gan Huw Lewis, Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn enghraifft wych o sut mae'r Cyngor yn arwain y ffordd wrth ddefnyddio technoleg newydd fydd o fantais i Flaenau Gwent yn awr ac yn y dyfodol. Y Tŷ Calch yw pedwerydd Cartref Dyfodol Cymru i'w gwblhau hyd yma, ac mae'n un o'r tai mwyaf effeithol o ran ynni yn y Deyrnas Unedig.

- Mae'r Tŷ Llarwydd (rhan o Cartefi Dyfodol Cymru) wedi ennill gwobr bwysig gan RICS Cymru (Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig). Caiff ei ystyried yn eang fel y brif wobr ym maes eco-adeiladu.
- Enillodd y Tŷ Llarwydd hefyd wobr Arloesedd am y Passivhaus Di-garbon cyntaf - a ddyfarnwyd gan Adeiladu Ardderchogrwydd Cymru
- Enillodd y Gweithfeydd a'i brosiectau cyffrous wobr datblygiad cynaliadwy y flwyddyn gan wobrau Wales Insider Property.

Mae'r nodweddion gwyrdd gwych yn cynnwys:

- Uwch-insiwleiddiad i gadw'r gwres i mewn
- Strwythur di-ddrafft i gadw aer cynnes i mewn
- Ffenestri mawr yn wynebu'r de, gyda gwydr trebl a ffrâm wedi'u hinsiwleiddio - i gynhesu'r aer yn y tŷ
- System awyriant ynni isel gyda chyfnewidydd gwres i gylchredeg awyr ffres yn y gaeaf. Caiff gwres ei ychwanegu drwy adennill mwy na 90% o'r gwres o'r aer sy'n gadael.

Rhowch ddyddiad 'poeth' yn eich dyddiadur: ffoniwch 01495 353306 i drefnu ymweliad safle i'r Gweithfeydd a Chartrefi Dyfodol Cymru.

Cymunedau cynaliadwy gwyrdd

Pobl ifanc yn creu hafan werdd

Mae egin o syniad i drawsnewid ardal ddiffaith o Ganolfan Adnoddau busnes y Cyngor i fod yn ardd wedi tyfu'n brosiect ysgolion cynaliadwy sydd wedi denu gwobr bwysig gan Lywodraeth Cymru. Sylwodd Owain Carter a Cedri Jones, sy'n gweithio i'r Cyngor y medrid gwneud gwell defnydd o'r tir.

Ymunodd Owain â Chanolfan y Cyngor yn 2010. Mae'n dysgu gwaith brics, gwaith saer coed, gwaith tir a pheintio ac addurno i ddisgyblion Blwyddyn 10 a 11.

Roedd eisoes ardal fechan gyda seddi gerllaw gydag ychydig o flodau, ond roedd angen ei hadfywio.

Dywedodd Owain: "Fe roddodd hyn y syniad i mi o drawsnewid yr holl ardal a gwneud defnydd gwell ohoni drwy greu rhandir ac ardal gardd."

Dechreuodd disgyblion Blwyddyn 11 ar brosiect Tools 4UR Future Cymunedau yn Gyntaf glirio'r ardal i baratoi.

Dywedodd Cedri: "Fe wnaethom weithio'n wirioneddol galed a gwnaeth pawb yn y tîm eu pwt. Rydym hyd yn oed wedi creu ardal bywyd gwyllt. Mae gan yr ardal fwydwyr adar, bath adar a thai adar. Mae gennym hefyd bentwr logiau ar gyfer pryfed a llenni tun wedi'u gosod mewn lleoedd strategol ar gyfer llygod neu hyd yn oed nadroedd!"

Ychwanegodd Owain: "Rydym yn ceisio bod mor 'wyrdd' ag sy'n bosibl yn ein holl waith. Cafodd yr holl friciau a ddefnyddiwn eisoes eu defnyddio rywle arall o leiaf unwaith. Gwnawn ein compost ein hunain."

Ar ôl misoedd o waith caled, mae'r grŵp wedi creu ardal hyfryd a chael llawer o fanteision drwy wneud hynny. Cafodd y bobl ifanc brofiad gwerthfawr a gweitho at gymwysterau OCN. Y tymor nesaf medrai Tools 4UR Future gymryd rhan yn ein prosiectau garddio a gwaith tir mewn ysgolion yn y fwrdeisdref.

Mae'r prosiect wedi ennill £10k o gronfa her datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Da iawn Owain a'i dîm a phob lwc am ddyfodol gwyrdd!

Plygio mewn i dorri carbon

Mae pobl a chyngor Blaenau Gwent yn angerddol am ddiogelu ein hamgylchedd hardd. Dyna pam ein bod yn plygio mewn i'r dechnoleg ddiweddaraf i ostwng ein ôl-troed carbon yn un o'r safleoedd datblygu mwyaf yn Ewrop.

Cafodd y Ganolfan Ynni newydd yn Y Gweithfeydd ei chynllunio i wresogi a phweru nifer o adeiladau cyhoeddus allweddol ar y safle. Bydd y canolbwynt ynni arloesol yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau 'gwyrddach' yn cynnwys uned gwres a phŵer cyfun, boeleri nwy effeithiol o ran ynni a hyd yn oed y dull o gynhyrchu ynni o biomas - ffynhonnell ynni adnewyddadwy - yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn anelu i sicrhau gostyngiad o 60% mewn allyriadau carbon wedi'u rheoleiddio o'r Gweithfeydd, gan helpu i greu amgylchedd gwyrddach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.'

Cartref newydd i fusnesau newydd

Mae adeilad REGAIN yn gyfleuster deorfa busnes a ariannir ar y cyd gan raglen Blaenau'r Cymoedd a rhaglen IVB Ewropeaidd Interreg. Mae'r adeilad yn cynnwys egwyddorion dylunio amgylcheddol gyda gwresogi a dŵr poeth yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae'n un o'r pedwar peilot Ewropeaidd yn seiliedig ar ledaenu arfer gorau mewn adeiladu cynaliadwy ar draws Gogledd Ewrop. Mae'r prosiectau eraill yn yr Alban, Ffrainc a Gwlad Belg. Bydd y prosiect yn cynnwys wyth o fusnesau newydd yn y sectorau swyddfa ac ymchwil a chaiff ei gwblhau yn yr hydref.

Adeilad REGAIN – cartref newydd ar gyfer wyth o fusnesau newydd, sy'n agor yn yr hydref

Cymunedau iachach

Fedrech chi fabwysiadu?

Bu'n amser prysur iawn i'r gwasanaeth mabwysiadu ym Mlaenau Gwent. Ym mis Ebrill 2010 fe wnaethom gyfuno ein gwasanaethau mabwysiadu gyda gwasanaethau mabwysiadu Torfaen a Sir Fynwy. Gyda'n gilydd, cawn ein galw yn Wasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru.

Diben y gwasanaeth newydd yw:

- Datblygu ymhellach y gwasanaeth mabwysiadu ar gyfer plant a theuluoedd ar draws Blaenau Gwent Torfaen a Sir Fynwy
- Canfod rhieni mabwysiadu ar gyfer plant ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen
- Cydlynu a chynghori ar ddarpariaeth gwasanaethau cefnogi mabwysiadu ar gyfer plant, teuluoedd sy'n mabwysiadu, perthnasau geni ac oedolion wedi'u mabwysiadu o fewn De Ddwyrain Cymru
- Rhoi cefnogaeth annibynnol i rieni geni a pherthnasau

Os oes gennych ddiddordeb mewn mabwysiadu plentyn, ffoniwch 01495 355766 neu e-bost adoption@blaenau-gwent.gov.uk.

Llwyddiant Gofal Maeth

Bu digwyddiad diweddar yn dathlu gwaith ardderchog ein gofalwyr maeth ym Mlaenau Gwent.

Yn ystod Pythefnos Cenedlaethol Maethu cafodd gofalwyr maeth wobrau am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gwasanaeth.

Rhoddwyd gwobr arbennig i Mrs Claire Lewis am ei chyfraniad sylweddol i Gwasanaethau Maethu a'r plant ym Mlaenau Gwent y mae wedi gofalu amdanynt. Cefnogwyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Brian Thomas, oedd yn Faer bryd hynny, a'r Cynghorydd John Rogers, Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhannu llwyddiant

Fe wnaethom uno gyda chynghorau Sir Fynwy a Thorfaen a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i gynnal Prosiect Pontio Eich Bywyd Eich Dewis. Enillodd wobr Gofal Cymdeithasol yn y seremoni wobrwyo yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar 23 Mehefin.

Bu'r prosiect Pontio yn darparu cefnogaeth i rai pobl ifanc anabl rhwng 13 a 25 oed wrth iddynt bontio o fod yn bobl ifanc i fod yn oedolion. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth iddynt adael yr ysgol a chychwyn yn y coleg, prifysgol, gwaith, hyfforddiant neu gael mynediad i wasanaethau cymdeithasol oedolion, neu wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol gan efallai adael cartref.

Mae'r prosiect wedi dechrau cyflwyno cynlluniau ar gyfer plant sy'n mynd drwy'r pontio o fewn Ysgol Pen-y-Cwm. Y nod yw ymestyn y cynllun i ysgolion eraill ym Mlaenau Gwent yn y dyfodol.

Prif nodau'r prosiect yw:

- sicrhau fod y broses cynllunio Pontio yn canolbwyntio mwy ar y person
- rhoi gwybodaeth well am gynllunio Pontio ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd
- gwella'r broses pontio aml-asiantaeth fel bod pobl ifanc gydag anableddau ac anghenion cymhleth yn cael cefnogaeth sydd wedi'i gydlynu'n dda i sicrhau gwell canlyniadau.

Bu grŵp o bobl ifanc yn ysgol Pen-y-Cwm yn cymryd rhan yn y prosiect a helpu i wneud DVD ar gyfer rhan o'r pecyn gwybodaeth. Fe wnaethant hefyd ein helpu i ennill y wobr drwy ymddangos mewn fideo a ddangoswyd yn y seremoni wobrwyo.

Bydd y prosiect yn parhau ym Mlaenau Gwent hyd Rhagfyr 2012 fel cynllun sy'n derbyn cyllid yr ESF gyda chynghorau Torfaen a Chaerffili a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Dywedodd Mike Logan, Rheolwr Prosiect Pontio: "Mae'r wobr hon yn cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad ein tîm prosiect a'r holl bobl ifanc, aelodau teulu a gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect hyd yma. Yr her yn awr yw sicrhau bod pobl ifanc gydag anghenion cymhleth yn cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth gywir

Chwith i'r dde: Gemma Butler (Cydlynydd Pontio); Julie Boothroyd (Cadeirydd Bwrdd Prosiect); Mike Logan (Rheolwr Prosiect Pontio); Gemma Nicholls (person ifanc ar y prosiect); Ruth Iles (Cydlynydd Pontio); Teresa James (un o'r rhiant ofalwyr a ysbrydolodd y prosiect).

Gwên ar gyfer pob Grwp Blwyddyn

Ysgol Gynradd Bryn Bach, Tredegar, yw'r ysgol gyntaf o fewn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i hyrwyddo iechyd y geg ar gyfer pob Grŵp Blwyddyn.

Ariennir y rhaglen Cynllun Gwên gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw gwella iechyd ceg plant ledled Cymru. Cyflwynir y Cynllun Gwên gan Wasanaeth Deintyddol Cymunedol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r cynllun yn rhoi sesiynau glanhau dannedd dan arolygaeth, yn ogystal â dysgu am iechyd y geg.

Bu Mr Martin Price, Pennaeth yr Ysgol, a'i staff yn gweithio'n galed i gynnwys pob grŵp blwyddyn yn y cynllun.

Rhoddir brwsh dannedd a phâst dannedd ddwywaith y flwyddyn i'r holl blant sy'n cymryd rhan i fynd â hwy adref.

Golau gwyrdd i Safle Chwaraeon newydd

Newyddion da i bobl sy'n dymuno dod yn iach, wrth i gynllun chwaraeon miliynnau o bunnau yn Y Gweithfeydd gael caniatâd gan gynllunwyr.

Cafodd safle chwaraeon £15m, gyda darpariaeth awyr agored', gymeradwyaeth y Pwyllgor Cynllunio. Nawr, gyda'r caniatâd cynllunio wedi'i gytuno, bydd y gwaith adeiladu yn dechrau.

Bydd yn ategu'r holl gyfleusterau newydd cyffrous yn Y Gweithfeydd fydd yn creu cyfleoedd iechyd ac economaidd newydd i'r holl fwrdeisdref.

Bydd y safle chwaraeon newydd yn cynnwys pwll 25m chwe lôn a phwll hwyl ynghyd â stiwdio ffordd o fyw 65 lle a phitsau artiffisial o'r math diweddaraf a phitsau glaswellt.

Byw'n Annibynnol yn y 21ain Ganrif

Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yw nod greiddiol ein strategaeth ac mae adnoddau'n parhau i gael eu hailfuddsoddi mewn gwasanaethau amgen yn y gymuned.

Bydd yr ail o'n cyfleusterau tai gwarchod Gofal Ychwanegol, Llys Nant y Mynydd, yn agor yn fuan yn Nantyglo. Bydd yn rhoi llety hyblyg gyda gofal a chefnogaeth ar gael ar y safle. Cafodd pawb eu cefnogi i symud i leoedd amgen gyda staff yn gweithio'n galed i roi gofal a chyngor yn ystod y newid.

Help gyda'r Dreth Gyngor ar gyfer Pensiynwyr 70+

Os ydych yn 70 oed neu drosodd a HEB fod yn derbyn unrhyw fudd-dal Treth Gyngor ar hyn o bryd, gallech fod â hawl i daliad unigol at eich Treth Gyngor.

Penderfynodd Cyngor Blaenau Gwent dargedu'r pensiynwyr hynny nad ydynt yn hawlio budd-dal ar hyn o bryd. Gallech ddal i fod yn gymwys os ydych yn derbyn disgownt am fyw ar eich pen eich hun.

Bydd treth gyngor ymgeiswyr llwyddiannus yn cael ei gostwng ar gyfer 2011/12 a byddant yn gorfod talu rhandaliadau is.

I fod yn gymwys mae'n rhaid i chi:

1. Fod yn 70 oed neu drosodd ar 31 Mawrth 2012
2. Bod yn byw yn ardal Blaenau Gwent
3. Bod yn gyfrifol am dalu'r Dreth Cyngor; a
4. Peidio bod yn derbyn budd-dal Treth Gyngor

I wneud cais, ffoniwch 01495 355212 a dweud yr hoffech wneud cais am y Gostyngiad Pensiynwyr 2011/12.

Nid yw'n rhaid i chi wneud cais arall os ydych eisoes wedi derbyn y gostyngiad Pensiynwyr.

Mae'n rhaid i chi anfon tystiolaeth o'ch oedran, e.e. tystysgrif geni, trwydded yrru ond COPIAU YN UNIG y dylid eu hanfon. Peidiwch anfon dogfennau gwreiddiol. Rhaid i bob cais ein cyrraedd erbyn 30 Tachwedd 2011. Ni fedrir ystyried ceisiadau hwyr.

I gael mwy o wybodaeth ffoniwch 01495 355212.

Geni'r babi cyntaf yn Ysbyty Aneurin Bevan

Croeso i'r byd Kelsey Mae! Hi yw'r babi cyntaf i gael ei geni yn uned genedigaeth Ysbyty Aneurin Bevan yng Nglynebwy.

Daeth Kelsey Mae Edwards i'r byd am 6.14am ddydd Sul 17 Ebrill i'w rhieni balch Kelly Williams a Tyrone Edwards o Briery Hill, Glynebwy.

Y bydwragedd oedd Michelle Hale ac Emma Hills a bydwraig benodol Kelly oedd Jane Evans.

Mae cynlluniau'n cael eu datblygu'n awr ar gyfer sganio uwchsain, clinigau gydag ymgynghorwyr, clinigau galw heibio ac addysg rhieni.

Ychwanegodd Elaine: "Mae'r cynlluniau sydd gennym ar gyfer yr uned genedigaeth yn gyffrous iawn i'r tîm. Rwy'n gobeithio y bydd llawer mwy o fenywod lleol eisiau cael eu babanod yma."

Dywedodd Kelly Williams, mam Kelsey: "Roedd yn teimlo fel petai Kelsey Mae wirioneddol eisiau bod y babi cyntaf i gael ei geni yma

Cymunedau Teg a Diogel

Cydweithio i wella Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cynghorau Blaenau Gwent a Chaerffili arwain y ffordd yng Nghymru drwy weithio gyda'r nod o integreiddio, er mwyn gwella gwasanaethau allweddol i bob adran o'r gymuned.

Mae gan y ddwy Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol hanes hir a llwyddiannus o gydweithio a chydnabod y manteision a ddaw datblygu gwasanaeth integredig. Fel rhan o'r cynnig bydd y ddau'n symud at ffordd fwy integredig o weithio dros y tair blynedd nesaf.

Mae David Waggett, Prif Weithredwr Blaenau Gwent ac Anthony O'Sullivan, Prif Weithredwr Cyngor Caerffili wedi croesawu'r cynnig mewn datganiad ar y cyd:

"Gweledigaeth hirdymor y cynnig yw cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol ansawdd uchel, sy'n canoli ar y person i breswylwyr y ddwy fwrdeisdref, gan helpu pobl i gyflawni eu potensial a'u cadw'n ddiogel, yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

"Mae'n glir mai mwy o gydweithio yw'r ffordd ymlaen i wella gwasanaethau cyhoeddus ac rydym yn falch i fod ar flaen y gad gyda'r ffordd flaengar yma o weithio. Rydym yn awr yn edrych ymlaen at rannu ein hadnoddau a'n harbenigedd fel y medrwn adeiladu ar ein cryfderau a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau lleol yn y dyfodol."

Dywedodd y Cynghorydd John Rogers, Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol: "Bu swyddogion Gwasanaethau Cymunedol ac aelodau etholedig o gynghorau Blaenau Gwent a Chaerffili'n gweithio'n galed dros y flwyddyn a hanner diwethaf i lunio trefniant cydweithio fydd yn gwella ymhellach ddwy adran sy'n perfformio'n dda

Disgwylir y bydd y gwasanaethau integredig ar draws bwrdeisdrefi Blaenau Gwent a Chaerffili yn arwain at well canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, costau is ac yn ein helpu i wneud gwell defnydd o adnoddau presennol.

Galw Landlordiaid Sector Preifat

Rydym yn falch i gyhoeddi fod Cartrefi Hafod Lettings yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent i gyflwyno asiantaeth gosodiadau cymdeithasol yn yr ardal.

Ein nod yw helpu landlordiaid sector rhent preifat i reoli eu hanheddau.

- Ydych chi'n aneglur am eich hawliau fel landlord a hawliau tenantiaid?
- Oes gennych chi unrhyw broblemau am denantiaethau ond heb fod yn gwybod ble i gael help?
- Ansicr beth i'w wneud am gwynion niwsans cymdogion?
- Ansicr os bydd eich tenantiaid yn edrych ar ôl eich cartref?
- Ydych chi'n meddwl y gallai'ch tenantiaid fod angen cefnogaeth i'w helpu i drin eu tenantiaeth ond nad ydynt yn gwybod o ble i gael help?
- Ydych chi'n cael fod Lwfans Lleol/Budd-dal Tai yn rhy gymhleth i'w ddeall?

Os ydych wedi ateb ydw neu oes i unrhyw un o'r cwestiynau, dylech siarad gydag Asiantaeth Gosodiadau Cartrefi Hafod. Mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor i helpu landlordiaid i reoli llety rhent preifat safon uchel. Ein nod yw rhoi:

- Adenilliad ariannol gweddus
- Tenantiaid sy'n barod i symud i mewn
- Tawelwch meddwl

Mae Asiantaeth Gosodiadau Cartrefi Hafod yn is-gorff i Gymdeithas Tai Hafod sydd â 40 mlynedd o brofiad o reoli 3,500 o anheddau rhent cymdeithasol.

Gall Asiantaeth Gosodiadau Hafod gynnig:

- Prisiau cystadleuol
- Amrediad o wasanaethau o reoli'n llawn i osodiadau yn unig
- Gwasanaethau ac arbenigedd cynnal a chadw
- Profiad o reoli problemau tenantiaeth
- Gwybodaeth arbenigol o lwfans tai lleol/budd-dal tai
- Gallu i roi neu gyfeirio tenantiaid at yr asiantaethau perthnasol gydag anghenion cefnogaeth

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Sandy Murphy, Swyddog Gosodiadau Preifat, Ffôn 029 2067 5800 neu e-bost Cartrefi@hafod.org.uk

Pact – Rhaglen cyfarfodydd

ABERTYLERI

Llanhiledd: 15/8/11 am 7.00 p.m.
Canolfan Gymunedol Brynithel

GLYNEBWY

Badminton: 12/9/11 am 6.30 p.m.
Ysgol Gyfun Glyncoed

Beaufort: 29/9/11 am 6.30 p.m.
Y Siop Wybodaeth, Queensway, Garnlydan

Rhasa: 6/9/11 am 6.30 p.m.
Canolfan Gymunedol Rhasa

BRYNMAWR, NANTYGLO A BLAENAU

Brynmawr: 3/10//11 am 7.00 p.m.
Ysgol Gynradd Santes Fair, Heol Intermediate, Brynmawr

Blaenau: 6/10/11 am 7.00 p.m.
Eglwys San Pedr Blaenau

Nantyglo: 4/10/11 am 7.00 p.m.
Clwb Rygbi Nantyglo, Nantyglo

I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw ddigwyddiad ewch i: **www.blaenaugwentvenues.com**

Beth sydd Ymlaen

yn Theatr a Dawnsfa Beaufort, Glynebwy. Swyddfa Docynnau: 01495 355800

Iau 1 Medi 8pm

CLWB COMEDI

Rhaglen i'w chadarnhau

Bar ar agor 7pm

Tocynnau £5

Sadwrn 10 Medi, 8pm

AYNSLEY LISTER

Llun, 12 i Sadwrn, 17 Medi, 7pm

CYMDEITHAS OPERATIG TREDEGAR

Gwener 30 Medi a Sadwrn 1 Hydref

PERFFORMIADAU GAN YSGOL DDAWNS TREDEGAR

Beth sydd Ymlaen

Beth sydd ymlaen yng Nghanolfan Ddiwylliannol a Chynadledda Y Metropole, Abertyleri. Swyddfa Docynnau: 01495 322510

www.the-met.co.uk

Mercher 17 Awst, 10am

HOLL HWYL Y FFAIR

Punch & Judy, Hwpla, Pysgota Hywaid a mwy

£4 (addas ar gyfer rhai 5-12 oed)

Gwener 2 Medi, 7.30pm

CERDDORIAETH FYW YN Y BAR

Cyfuniad eclectig o ganu gwerin a'r blues gan Raw Folk ac artistiaid gwadd arbennig. Dewch draw a mwynhau naws Bar y Met gan wrando ar gerddoriaeth wych.

£5

Mercher 7 Medi i Sadwrn 10 medi, 7pm

Cymdeithas Ddrama a Cherddorol Ieuenctid Abertyleri yn cyflwyno

A CHORUS LINE

Ar 7 Medi talwch £6
8 i 30 Medi talwch £7

Mercher, 14 Medi 11am

CYNGERDD BORE COFFI

Mynediad am ddim

Beth sydd Ymlaen

Sinema Neuadd y Farchnad, Brynmawr. 01495 310576

I weld y ffilmiau diweddaraf, ewch i Sinema Neuadd y Farchnad, Brynmawr.

2012 YW 20FED PEN-BLWYDD GŴYL YR ARDD

Mae gan ein llyfrgelloedd lawer o luniau a fideos - sy'n cael ei rhoi ar ffurf ddigidol - fydd ar gael ym mlwyddyn y 20fed pen-blwydd. Hoffai staff ein llyfrgell glywed eich atgofion o Ardd yr Ŵyl i'w cynnwys yn ein casgliad. Os hoffech rannu eich atgofion gyda ni a'r cyhoedd yn ehangach, byddem yn falch iawn clywed gennych.

Byddwn yn cynnal sesiynau lle medrwch edrych ar y casgliad lluniau a chofnodi eich straeon o'r hawyl a gawsoch 20 mlynedd yn ôl.

7 Hydref - Llyfrgell Cwm 2pm-3.30pm

14 Hydref - Llyfrgell Cwm 2pm-3.30pm

25 Hydref - Llyfrgell Cwm 10am-1pm

2 Tachwedd - Llyfrgell Blaenau Gwent 10.30am-1pm

10 Tachwedd Llyfrgell Blaenau Gwent 10.30am-1pm

16 Tachwedd Llyfrgell Blaenau Gwent 10.30am-1pm

Os na fedrwch ddod i sesiwn ond yr hoffech rannu eich atgofion, cysylltwch â 0-1495 357870.

Hwyl Haf

Mwy o wybodaeth ar–lein! Ewch i www.blaenaugwentvenues.com

Ffurflen gais. Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad islaw:

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:
NP

Ffôn:
(01495)

Oedran:
(dan 16 yn unig)

Atebwch bob cwestiwn drwy roi tic neu groes yn y blwch.

Cwestiwn 1

Beth yw enw ein Prosiect Hwyluso Menter?

- ☐ Effaith Blaenau Gwent
- ☐ Eich effaith
- ☐ Yr effaith

Cwestiwn 2

Ar adran olaf pa ffordd mae'r gwaith deuoli ar fin cychwyn?

- ☐ A475
- ☐ A465
- ☐ A435

Cwestiwn 3

Beth yw adeilad REGAIN?

- ☐ Cyfleuster deorfa busnes
- ☐ Cyfleuster ailgylchu
- ☐ Cyfleuster technoleg gwybodaeth

Ar ôl llenwi eich ffurflen gais, postiwch hi at:

Cystadleuaeth Cyswllt, Tîm Cyfathrebu a Marchnata, Cyngor Blaenau Gwent, Canolfan Ddfinesig NP23 6XB

☐ Hoffem anfon mwy o wybodaeth atoch am adloniant a digwyddiadau ym Mlaenau Gwent. Ticiwch y blwch hwn os na ddymunwch dderbyn gwybodaeth ychwanegol.

Eich cyfle i ennill tocynnau teulu AM DDIM

Enillwch docynnau teulu ar gyfer sioe yn Y Met, Abertyleri ddydd Mercher 26 Hydref 2pm.

Snail Tales – A Little Bird Told Me...

Straeon heddiw o feddyliau plant ysgol heddiw, wedi'u hadrodd gan adroddwyr stori hudolus.

Byddwch y cyntaf i glywed y genhedlaeth nesaf o straeon tylwyth teg!

Dewiniaid, gwrachod ac anifeiliaid hud yn ymuno â bechgyn a merched fel chi ar anturiaethau gwyllt a throeon trwstan. Cafodd pob stori fer eu creu gan blant o ysgol cynradd ym Mhrydain a'u haddasu gan adroddwyr stori proffesiynol i gynnwys pypedwaith, cerddoriaeth fyw, hud allawer o gymryd rhan!

Weithiau'n foesol, weithiau'n hyfryd o hurt, ond bob amser yn lliwgar, cywrain a hwyliog .. mae'r olwg hon ar fyd dychymyg y plentyn modern yn wledd i'r holl deulu.

Dyddiad cau 23/9/11.

Rheolau cystadleuaeth

Mae'r gystadleuaeth ar agor i breswylwyr Blaenau Gwent. Dim ond un cais o bob aelwyd a dderbynnir ar gyfer y gystadleuaeth. Os yw cystadleuwyr dan 16 oed, mae'n rhaid iddynt gael caniatâd gan riant/warcheidwad cyn cymryd rhan. Rhaid gwneud cynigion ar ffurflenni cystadleuaeth cylchgrawn Cyswllt.

Bydd yr enillydd yn derbyn aelodaeth Life am fis i'r teulu. Y cais buddugol fydd y cais cyntaf cywir a dynnir. Mae penderfyniad y beirniad yn derfynol. Mae'n amod cymryd rhan fod y rheolau hyn yn cael eu derbyn fel terfynol.

gwent saffach
rhifyn crynodeb plismona
Amddiffyn a Thawelu Meddwl Blaenau Gwent

Y flwyddyn i ddod

Mae'n bleser gennyf gael y cyfle hwn i amlinellu sut y caiff plismona yng Ngwent ei wella a'i ddatblygu ymhellach dros y flwyddyn nesaf.

Ein prif flaenoriaeth fydd parhau i blismona ein cymunedau lleol yn effeithiol. Mae'n bleser gennyf adrodd bod gwaith i gynyddu hyder, bodlonrwydd a'n hymateb i'r cyhoedd wedi arwain at welliannau ar draws sawl maes darpariaeth.

Rydym hefyd wedi gweithio i ddatblygu trefniadau gydag asiantaethau eraill o ran gweithio ar y cyd er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithiol ac ariannol ymarferol i bobl Gwent.

Mae penderfyniadau ariannol heriol ynghyd â disodli tebygol ar awdurdodau heddlu gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn peri cyfnod o ansicrwydd i bawb ohonom. Er gwaethaf hyn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau beth bynnag fydd yr atebion i'r heriau hyn, bydd eich gwasanaeth heddlu lleol yn parhau i wneud Gwent yn lle diogelach i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cilla Davies,
Cadeirydd Awdurdod Heddlu Gwent

I gysylltu â'r Awdurdod Heddlu, ffoniwch:
(**01633) 642 200**
neu e-bostiwch : **policeauthority@gwent.pnn.police.uk**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter neu Facebook – chwiliwch am Awdurdod Heddlu Gwent.

Yr heddlu'n cosbi troseddu ym Mlaenau Gwent

Arestiwyd 11 o bobl gan swyddogion heddlu ym Mlaenau Gwent mewn ymgyrch wedi ei chynllunio i leihau troseddu.

Cynhaliodd swyddogion lleol ddiwrnod gweithredu yn ddiweddar. Ar y diwrnod hwn fe wnaethant weithredu gwarantau chwilio ac arestiwyd pobl yr oedd chwilio amdanynt. Arestiodd y swyddogion dri o bobl am ddwyn, tri am fyrgleriaeth, un am fygythiadau i greu difrod, un am ymosod, un am fod ym meddiant cyffuriau ac un am fod ym meddiant cyffuriau gyda'r bwriad i gyflenwi.

Aethpwyd â gŵr arall i'r ddalfa oherwydd bod gwarant am ei arestiad yn dal heb ei weithredu. Bydd diwrnodau gweithredu fel hyn yn parhau.

Gwasanaethu trigolion Gwent

Fi yw Carmel Napier, Prif Gwnstabl newydd Heddlu Gwent. Mae'n fraint gennyf wasanaethu pobl Gwent. Fy mlaenoriaethau fel Prif Gwnstabl fydd: parhau i cadw chi'n ddiogel; darparu gwasanaethau plismona lleol hygyrch a gweladwy, a darparu gwerth am arian rhagorol yn y cyfnod anodd a heriol hwn sydd o'n blaenau.

Yn barod yn ystod fy ngwasanaeth fel eich Dirprwy Prif Gwnstabl rydym wedi arbed £11.6 miliwn. Ein nod yw arbed o leiaf £24 miliwn yn y pedair blynedd nesaf. Rwy'n hyderus bod hyn yn bosibl, trwy weithio gyda chi a'n partneriaid yn y gymuned. Llynedd wnaethon ni leihau trosedd yng Ngwent 10%, sef 4,000 yn llai o ddioddefwyr trosedd, yn ogystal roedd 8,000 yn llai o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dewch i adnabod eich swyddog lleol, ac mae croeso i chi gysylltu â ni am help neu gyngor.

Carmel Napier,
Prif Gwnstabl

843_01

Uwcharolygydd Mark Warrender



Fi yw'r Uwcharolygydd Mark Warrender, yr uwch swyddog heddlu ym Mlaenau Gwent. Rwy'n falch i gael dweud ein bod, gyda'ch cymorth chi, wedi gweld gostyngiadau sylweddol mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwy'n gwybod bod llawer o bobl yn dal i gael eu heffeithio gan y ddau. Rwy'n benderfynol i ysgogi hyd yn oed mwy o welliannau yn ein gwasanaeth.

Golyga hyn y byddwn yn ystod y flwyddyn nesaf yn chwilio am hyd yn oed rhagor o ffyrdd i gynnwys pobl a chymunedau lleol mewn datrys problemau yn lleol. Byddwn yn creu Timau Gweithredu Cymdogaeth i'n cynorthwyo ni i fynd i'r afael â'ch problemau - cysylltwch â'ch swyddog ward lleol os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r cynllun hwn.

Am fanylion pellach ewch i:

http://www.gwent.police.uk/about_us/nhp/blaenau_gwent/blaenau_gwent_npteams.htm

Swyddogion yn atafaelu alcohol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Daeth dau ar hugain o swyddogion heddlu newydd i Flaenau Gwent i gynorthwyo timau lleol, a swyddogion Safonau Masnach, mewn ymgyrch ar y cyd, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Fe wnaethom dargedu pobl ifanc yn eu harddegau, rhai dan 18 oed, oedd yn yfed heb fod dan oruchwyliaeth mewn rhannau o Abertyleri, Brynmawr, Glyn Ebwy a Thredegar. Fe wnaethom atafaelu 67 o duniau a photeli a chyflwyno pump atgyfeiriad ymddygiad gwrthgymdeithasol. Riportiwyd dau berson ifanc am yfed dan oed a chafodd un, yr oedd chwilio amdano dan warant, ei arestio.

Hefyd gwnaeth swyddogion Safonau Masnach y Cyngor yn sicr bod mangreoedd trwyddedig yn masnachu'n gyfreithlon ac atgoffwyd busnesau am y cosbau ar gyfer gwerthu alcohol i unrhyw un dan yr oedran cyfreithiol.

Yn hanesyddol,mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys pobl ifanc yn cynyddu yn ystod misoedd yr haf. Mae cwynion nodweddiadol yn cynnwys ieuenctid yn yfed mewn mannau cyhoeddus, yn ymgasglu y tu allan i siopau lleol, mân ddifrod, a bod yn niwsans yn gyffredinol.

Dywedodd y Rhingyll Jason Rowe, a gydlynodd yr ymgyrch: "Roeddem am ymyrryd ar gam cynnar er mwyn atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol o fewn ein cymunedau."

Am fwy o wybodaeth ynglyn a be sy'n cael ei wneud i ddelio hefo yfed dan oed gwyliwch ein ffilm www.youtube.com/gwentpolice.

A wyddoch chi? Did you know?

Mae troseddu wedi gostwng 10% yng Ngwent - mae hynny'n golygu 4,300 yn llai o ddioddefwyr trosedd.

Mae lladron yn cael eu hatal yng Ngwent - cawsom 20% yn llai o ladradau llynedd.

Crime is down in Gwent by 10%- that's 4,300 fewer victims of crime.

We've invested in three mobile police stations – to better serve our rural and outlying communities.

Fe ddown o hyd i chi os byddwch yn cyflawni trosedd cerbydau - mae wedi gostwng 8% yng Ngwent.

Criminal damage has reduced by 17% over the last year'.

Robbers are being deterred in Gwent – we had 20% fewer robberies last year.

Rydym wedi buddsoddi mewn tair swyddfa heddlu symudol - er mwyn gwasanaethu ein cymunedau gwledig ac anghysbell yn well.

We're still working hard to prevent and detect burglaries – five prolific burglars were recently convicted in Newport.

Rydym yn parhau i weithio'n galed i atal a ddarganfod fyrglwyr – mae pump ohonynt newydd eu heuogfarnu yng Nghasnewydd.

We recruited and trained 128 extra officers last year; one of the few UK forces to do so.

Rydym wedi recriwtio a hyfforddi 128 yn rhagor o swyddogion llynedd - un o'r ychydig heddluoedd yn y DU i wneud hynny.

Mae difrod troseddol wedi gostwng 17% yn y flwyddyn diwethaf.

We will find you if you commit vehicle crime – it's down by 8% in Gwent.

Don't even think about committing fraud or forgery here – we've reduced so called "white collar crime" by 13%.

Rydym yn falch bod mwy o ddioddefwyr ymosodiad rhywiol yn ddigon hyderus i riportio'r troseddau – gwnaeth 5% yn rhagor gysylltu i ddatgelu honiadau, a gwnaethom eu hymchwilio ac erlyn pan oedd hynny'n briodol.

Peidiwch â hyd yn oed meddwl am gyflawni twyll neu ffugiadau yma - rydym wedi lleihau'r hyn a elwir yn "droseddau coler wen" 13%.

We're glad more victims of sexual assault are confident enough to report the crimes – 5% more came forward to disclose allegations which we've investigated and prosecuted where appropriate.

Tîm Plismona Cymdogaeth Glynebwy / Ebbw Vale Neighbourhood Policing Team

Wardiau a wasanaethir / Wards covered:

1 Badminton 2 Beaufort 3 Cwm 4 Gogledd Glynebwy / Ebbw Vale North

5 De Glynebwy / Ebbw Vale South 6 Rasa / Rassau P/A Pob ward / All wards

ebost / email: **ebbwvale@gwent.pnn.police.uk** Ffôn / Tel: **01495 233 956**

ALLWEDD / KEY: AC / NI = Arolygydd Cymdogaeth / Neighbourhood Inspector, **RT / TS** = Rhingyll y Tîm / Team Sergeant, **SLTAA / CADRO** = Swyddog Lleihau Troseddau ac Anrhefn / Crime and Disorder Reduction Officer, **WT / TW** = Warden Traffig / Traffic Warden, **SC / NO** = Swyddog Cymdogaeth / Neighbourhood Officer, **SCC / CSO** = Swyddog Cymorth Cymdogaeth / Community Support Officer

AC/NI P/A
Anthony Green

RT/TS P/A
Matthew Briggs

SLTAA/CADRO P/A
Paul Whittaker

WT/TW P/A
James Smart

SC/NO 1 2
Andrew Davies

SCC/CSO 1
Rhian Hodges

SCC/CSO 2 6
Anthony Dawe

SC/NO 3
Andrew Watkins



SCC/CSO 3
Natalie Evans

SC/NO 4
Ian Withers

SC/NO 4
Jason Jones

SCC/CSO 4
Chris Wright

SCC/CSO 4
Bobbie Jo Swift

SCC/CSO 5
Christine Cook

SC/NO 5
Vicky Dudley

SCC/CSO 5
Rebecca Offers

SC/NO 5
Michael.P.Davies

SCC/CSO 6
Peter Flinn

Tîm Plismona Cymdogaeth Tredegar / Tredegar Neighbourhood Policing Team

Wardiau a wasanaethir / Wards covered:

1 Georgetown 2 Sirhywi / Sirhowy 3 Canol a Gorllewin Tredegar / Tredegar Central annd West

P/A Pob ward / All wards

ebost / email: **tredegar@gwent.pnn.police.uk** Ffôn / Tel: **01495 233 965**

ALLWEDD / KEY: AC / NI = Arolygydd Cymdogaeth / Neighbourhood Inspector, **RT / TS** = Rhingyll y Tîm / Team Sergeant, **SLTAA / CADRO** = Swyddog Lleihau Troseddau ac Anrhefn / Crime and Disorder Reduction Officer, **WT / TW** = Warden Traffig / Traffic Warden, **SC / NO** = Swyddog Cymdogaeth / Neighbourhood Officer, **SCC / CSO** = Swyddog Cymorth Cymdogaeth / Community Support Officer

AC/NI P/A
Anthony Green

RT/TS P/A
Robert Petrie

SLTAA/CADRO P/A
Paul Whittaker

WT/TW P/A
James Smart

SC/NO 1
Patrick Maguire

SCC/CSO 1
Janine Dingle

SC/NO 2
Paul Frayne

SCC/CSO 2
Greg Smith

SCC/CSO 2
Gemma Thomas

SC/NO 3
Neil Cooper

SC/NO 3
Devi Chhetri

SCC/CSO 3
Paula Blunt